



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



## Rhaglen Ymarferwyr Uwch Gwobr Gorfforaethol CIPS Cwestiynau Cyffredin

### **C. Faint fydd y rhaglen yn ei gostio?**

- A. Bydd pob lle i gynrychiolwyr yn costio oddeutu £4,795 + TAW ac yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys eich ffioedd aelodaeth. Dim ond am unrhyw Deithio a Chynhaliaeth y bydd angen i'ch sefydliad dalu.

### **C. Oes rhaid i mi dalu unrhyw beth fy hun?**

- A. Nac oes. Os ydych chi'n cael lle ar y cwrs, bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu eich lle. Fel uchod, dim ond eich costau Teithio a Chynhaliaeth y bydd angen i chi eu talu.

### **C. A oes unrhyw amodau wrth i mi gael fy nerbyn os cynigir lle i mi ar y rhaglen?**

- A. Oes, bydd gofyn i chi ymrwymo i aros yn sector cyhoeddus Cymru am dair blynedd ar ôl cwblhau'r rhaglen. Os dewiswch adael sector cyhoeddus Cymru yn y cyfnod hwn bydd gofyn i chi dalu'ch costau hyfforddi yn ôl. Byddwn yn monitro hyn gyda CIPS.

### **C. A oes yna unrhyw gymwysterau mynediad?**

- A. Oes, mae'n rhaid eich bod wedi llwyddo yn Lefel 4 / Diploma CIPS. Mae'n ofynnol i chi gadarnhau hyn ar eich ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb.

### **C. A fydd yn rhaid i mi dalu fy aelodaeth CIPS fy hun?**

- A. Na fydd, mae'r costau'n cynnwys eich ffioedd aelodaeth.

### **C. Faint o leoedd fydd yn cael eu cynnig?**

- A. Bydd uchafswm o leoedd ar gael. Byddwn yn asesu'r galw terfynol ar ôl y dyddiad cau. Gwneir y dewis terfynol i sicrhau bod yna wasgariad teg o ran sector ac ardal ddaearyddol. Os yw sector / sefydliad yn cyflwyno nifer uchel o ymatebion, gallwn ofyn i'r rhain gael eu lleihau.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**C. Sut mae'r cwrs wedi'i strwythuro?**

A. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar aseiniadau sy'n cynnwys 5 modiwl a phrosiect terfynol o 10,000 o eiriau. Mae gan gynnwys y cwrs gyd-destun er mwyn adlewyrchu tirwedd caffael Cymru.

**C. Ble bydd y modiwlau'n cael eu cyflwyno?**

A. Mae'n debygol y bydd hyn yn dechrau ar-lein a Zoom fydd y llwyfan ar gyfer darlithoedd y tiwtoriaid. Bydd unrhyw hyfforddiant wyneb yn wyneb mewn ystafell ddosbarth yn cael ei gynnal yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ledled Cymru.

**C. A oes yna arholiadau?**

A. Nac oes. Rhaglen ar sail aseiniadau yw hon.

**C. A all unrhyw un wneud cais?**

A. Rhaid i chi fod yn aelod staff parhaol, ac wedi cwblhau unrhyw gyfnod prawf a allai fod yn berthnasol. Rhaid i chi hefyd fod wedi cwblhau CIPS Lefel 4 / Diploma i fod yn gymwys.

**C. Sut mae gwneud cais?**

A. Rhaid defnyddio'r ffurflen Datganiadau o Ddiddordeb ynghlwm ar gyfer ceisiadau.

**C. Sut fydd y rhaglen yn cael ei hysbysebu?**

A. Bydd y rhaglen yn cael ei hysbysebu trwy'r dulliau cyfathrebu arferol - cylchlythyr, e-byst rhanddeiliaid ac ar yr Hwb Gwybodaeth.

**C. Pryd fydd y rhaglen yn cael ei hysbysebu?**

A. Bydd lleoedd yn cael eu hysbysebu yn ystod mis Medi 2020. Bydd y rhaglen yn cychwyn ym mis Ionawr 2021. Cyhoeddir amserlen pan fydd ar gael.

**C. Beth yw'r broses ddethol?**

A. Bydd panel dethol yn asesu pob cais a dderbynnir i sicrhau dosbarthiad teg o wasgariad yn ôl sector ac ardal ddaearyddol.

**C. A yw'r dyddiadau'n hyblyg?**

A. Nac ydynt - Bydd dyddiadau cyflwyno'r cwrs yn sefydlog.

**C. A allaf wneud unrhyw rai o'r cyrsiau ar-lein?**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

- A. Bydd cyflwyno'r cwrs yn dechrau mewn amgylchedd rhithwir gan ddefnyddio Zoom ond yn y pen draw gellir symud i sesiynau wyneb yn wyneb yn seiliedig ar ystafell ddosbarth yn swyddfeydd LIC.
- C. Rwyf eisoes yn astudio Diploma Raddedig CIPS gyda Phrifysgol arall. Alla' i ymuno â'r rhaglen hon?**
- A. Os ydych eisoes yn astudio'r cwrs gyda Phrifysgol yng Nghymru, ni allwch wneud cais. Mae hyn er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gefnogi Prifysgolion Cymru a'u myfyrwyr.
- C. Pa mor hir y bydd yn ei gymryd i gwblhau'r rhaglen?**
- A. Bydd y rhaglen Ymarferwyr Uwch yn dechrau ym mis Ionawr 2021 ac yn cymryd tua 15 mis i'w chwblhau.
- C. Ble alla' i ddarganfod mwy o wybodaeth am y rhaglen Gwobr Gorfforaethol?**
- A. Bydd y ddolen hon yn mynd â chi i'r dudalen Gwobr Gorfforaethol ar wefan CIPS. <https://www.cips.org/cips-for-business/people/routes-to-mcips/corporate-award/>

Dylid anfon pob ymholiad pellach at [vwpolicy@llyw.cymru](mailto:vwpolicy@llyw.cymru)



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## ATODIAD 2 - Dyddiadau Cyflawni

Dyddiadau*	Elfen y Rhaglen
7 Medi	Sesiwn Ymsefydlu 09.30 a.m.
15 ac 16 Medi	Modiwl 1 - Sicrhau Gwerth trwy P&S
28 a 29 Medi	Modiwl 2 - Rheoli Gwariant gyda Chyflenwyr
29 Hydref	<b>Cyfranogwyr yn Cyflwyno Aseiniad 1</b>
1 a 2 Rhagfyr	Modiwl 3 - Datblygu Contractau mewn P&S
10 Ionawr 2021	<b>Cyfranogwyr yn Cyflwyno Aseiniad 2</b>
9 a 10 Chwefror	Modiwl 4 - Dod o Hyd i Hanfodion yn P&S
19 Mawrth	<b>Cyfranogwyr yn Cyflwyno Aseiniad 3</b>



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

14 ac 15 Ebrill	Modiwl 5 - Negodi Effeithiol
21 Mai	Cyfranogwyr yn Cyflwyno Aseiniad integreiddiol (5,000 gair)

\* Amcangyfrifon yw'r dyddiadau a gallant newid. Bydd dyddiadau mis Chwefror yn cael eu symud i wneud lwfans am hanner tymor.